Department for Transport

Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Pontydd Hafren

## Gostwng prisiau tollau a materion eraill

## Ymateb y Llywodraeth

Mae’r Adran Drafnidiaeth wedi ystyried anghenion pobl ddall a phobl rhannol ddall o ran defnyddio’r ddogfen hon. Bydd y testun ar gael yn ei gyfanrwydd ar wefan yr Adran. Mae modd i unigolion neu sefydliadau lwytho’r testun i’w lawr a’i drosi yn fformatau hygyrch eraill. Os oes gennych chi unrhyw anghenion eraill yn y cyswllt hwn, cysylltwch â'r Adran.

Department for Transport
Great Minster House
33 Horseferry Road
London SW1P 4DR
Ffôn 0300 330 3000
Gwefan www.gov.uk/dft
Ymholiadau cyffredinol: https://forms.dft.gov.uk

OGL

© Hawlfraint y Goron 2017

Y Goron sy’n dal yr hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol.

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos neu ddeunyddiau trydydd parti) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol/The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol 4
2. Ynghylch beth fuon ni'n ymgynghori 6
3. Dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law 9
4. Crynodeb o'r ymatebion 12
5. Y Camau Nesaf 15

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae Pontydd Hafren yn gyswllt allweddol yn economïau De Cymru a De Orllewin Lloegr, ac maent yn parhau i feithrin tirwedd economaidd a diwylliannol eu hardaloedd cyfagos. Mae dros 25 miliwn o gerbydau'n eu defnyddio bob blwyddyn ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu'r cyswllt hollbwysig hwn am genedlaethau i ddod.

Yn gynharach eleni roedd y Llywodraeth wedi ymgynghori ar gynigion i leihau tollau Pontydd Hafren, a mesurau eraill, gan gynnwys a ddylid ystyried cyflwyno tollau agored yn y dyfodol. Y ddogfen hon ydy ymateb y Llywodraeth i'r broses ymgynghori hon ac mae'n rhoi manylion y safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr, ynghyd â chasgliadau'r Llywodraeth a'i chynllun ar gyfer gweithredu'r Pontydd yn y dyfodol.

Er nad oedd yr ymgynghoriad wedi gofyn am safbwyntiau ynghylch diddymu'r tollau, roedd nifer mawr o ymatebwyr a oedd yn galw am hynny ynghyd ag ymatebwyr a oedd yn cefnogi cynigion yr ymgynghoriad yn gyffredinol. Mae'n wir dweud bod partïon lleol sydd â diddordeb, gan gynnwys Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, busnesau a chymudwyr wedi galw am ddiddymu'r tollau ers tro byd. O ystyried hyn ni fyddwn yn bwrw ymlaen â haneru'r tollau, ond yn lle hynny rydym yn ymrwymo i ddiddymu'r tollau'n llwyr erbyn diwedd 2018.

Daw'r Pontydd yn ôl dan reolaeth y Llywodraeth ar 8 Ionawr 2018, ac ar ôl hynny byddant yn cael eu rheoli gan Highways England. Ar ôl y dyddiad hwnnw, ni fydd y tollau'n cynnwys TAW, ac felly bydd y tollau'n lleihau'n unol â hynny. Mae hyn yn cyd-fynd â'n cyhoeddiad yng Nghyllideb 2015. Ar ben hynny, ni fydd dim cynnydd ar 1af Ionawr 2018 (fel y bu mewn blynyddoedd blaenorol). Bydd y tollau wedyn yn parhau tan ddiwedd 2018 pan ddaw'r holl dollau ar y Pontydd i ben, yn unol â chyhoeddiad y Llywodraeth ar 21 Gorffennaf 2017. Bydd y cyfnod hwn o godi tollau yn golygu bod modd adennill costau a ysgwyddwyd gan drethdalwyr sy'n ymwneud â'r pontydd – yn flaenorol a dros flwyddyn olaf y tollau. Rydym yn

credu mai dyma'r trefniant tecaf, sy'n cydbwyso'r cyfraniad a wnaed gan ddefnyddwyr a threthdalwyr.

Mae Tabl 1 yn nodi'r ffioedd ar ôl tynnu TAW. Bydd cyfraddau TAG hefyd yn cael eu newid yn yr un modd.

**Tabl 1: Ffioedd ar ôl y consesiwn a thynnu TAW**

| Categori Cerbydau | Toll 2017 (£) | Ffi ar ôl y consesiwn |
|---|---|---|
| 1 (Ceir a cherbydau eraill â hyd at 9 sedd) | 6.70 | **5.60** |
| 2 (Cerbydau nwyddau hyd at 3.5 tunnell, bysiau bach) | 13.40 | **11.20** |
| 3 (Cerbydau nwyddau dros 3.5 tunnell, bysiau mawr) | 20.00 | **16.70** |

Bydd y ffaith bod Highways England yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y Pontydd ar ôl diwedd y consesiwn yn effeithio ar rai aelodau staff. Ymgynghorir â'r staff a'u hundebau cydnabyddedig ymhell cyn cyflwyno unrhyw newidiadau gweithredol a threfniadaethol.

Yng ngoleuni'r penderfyniadau hyn ni fyddwn yn cynnal unrhyw ymchwiliad arall i newidiadau i'r systemau tollau, fel diweddariadau i'r system taliadau TAG neu dollau agored.

# 2. Ynghylch beth fuon ni'n ymgynghori

Ar 13 Ionawr, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad, yn nodi cyfres o gynigion gyda'r bwriad o gyflawni gwelliannau ar y pontydd. Bu'r ymgynghoriad hwn yn agored am wyth wythnos tan 10 Mawrth.

Bydd Pontydd Hafren yn dychwelyd i berchnogaeth y cyhoedd ar 8 Ionawr 2018. Ar ôl i hynny ddigwydd, mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu'r prisiau tollau uwch ar gyfer faniau a bysiau bach, a haneru'r tollau. Roedden ni wedi bwriadu parhau i weithredu'r system taliadau TAG, ac roeddem wedi cynnig y dylai'r prisiau ar gyfer tymor, rhannu neu daith TAG, ddisgyn yn ôl yr un gyfran er mwyn darparu gostyngiad cyfatebol mewn costau ar gyfer y defnyddwyr hyn.

Roedd disgwyl i lefelau'r traffig gynyddu o dan ein cynigion. Roeddem yn disgwyl cynnydd ychwanegol mewn traffig – tua 17% erbyn 2028 – o ganlyniad i'r gostyngiadau yn y tollau. Felly mae'r Llywodraeth wedi bod yn ystyried ffyrdd o leihau'r amser mae'n ei gymryd i gasglu'r tollau ac mae'n cynnig talgrynnu prisiau'r tollau i lawr i rif cyfan o bunnoedd er mwyn lleihau faint o geiniogau sy'n cael eu trin mewn taliad neu wrth roi newid yn y bythau tollau.

Yn hytrach na £6.70, roedd cynnig i geir a cherbydau categori 1 eraill dalu £3.00 – a oedd yn golygu arbed dros 50%. Yn hytrach na £13.40, byddai cerbydau categori 2 fel bysiau bach neu faniau hefyd yn talu £3.00 – a oedd yn golygu arbed dros 75%. Byddai cerbydau mawr yng nghategori 3 hefyd yn arbed 50%.

Mae'r gostyngiadau mewn prisiau TAG a oedd wedi cael eu cynnig o'r blaen yn cael eu nodi isod yn Nhabl 2;

**Tabl 2: Prisiau TAG**

| Categori | Toll 2017 | | | Y ffi a gynigiwyd gan yr ymgynghoriad ar ddiwedd y consesiwn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tymor TAG | Rhannu TAG | Taith TAG | Tymor TAG | Rhannu TAG | Taith TAG |
| Categori 1 | £117.92 | £117.92 | £6.70 | £52.80 | £52.80 | £3.00 |
| Categori 2 | £235.84 | Amh. | £13.40 | £52.80 | Amh. | £3.00 |
| Categori 3 | £396.00 | Amh. | £20.00 | £198.00 | Amh. | £10.00 |

Roedd y Llywodraeth hefyd wedi datgan ei bwriad i ddod â newidiadau rheoleiddio ymlaen er mwyn gallu gosod y ffioedd ar y lefelau a oedd yn cael eu cynnig, gan wahodd sylwadau am y cynigion deddfwriaethol, gan gynnwys y gorchymyn arwystlo drafft.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, roedden ni hefyd wedi gwahodd safbwyntiau ynghylch dyfodol y system taliadau TAG ac ynghylch a ddylid edrych ar dollau agored.

## Cwestiynau penodol yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch tri chynnig sef:

- **Prisiau'r tollau yn y dyfodol** – y cynnig i ostwng y pris ar gyfer gyrwyr ceir dros 50% i £3, ar gyfer gyrwyr faniau dros 75% i £3 a gostwng y ffi ar gyfer cerbydau mawr yng nghategori 3 50% i £10. Bydd y newidiadau hyn yn galw am gyflwyno newidiadau rheoleiddio i newid statws cyfreithiol y taliad i ddefnyddio'r Pontydd. Gofynnwyd felly am safbwyntiau ynghylch y cynigion deddfwriaethol, gan gynnwys y gorchymyn arwystlo drafft.

- **Cynllun TAG** – dyfodol y system taliadau TAG, sy'n cynnig disgownt i ddefnyddwyr ar ôl tua 20 taith y mis.

- **Ffioedd agored** – a ddylai'r Llywodraeth ystyried y syniad o gyflwyno codi ffioedd agored dwy ffordd.

# 3. Dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law

Roedd ystod eang o sefydliadau ac unigolion wedi ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad:

| Tabl 3: Cyfanswm yr ymatebion | 459 |
|---|---|
| **Ymatebion gan unigolion** | **428** |
| **Ymatebion gan fusnesau neu sefydliadau eraill** | **31** |

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 13 Ionawr 2017 ac roedd ar agor am wyth wythnos tan 10 Mawrth 2017. Daeth 459 o ymatebion i law, 428 gan unigolion a 31 gan fusnesau neu sefydliadau eraill. Cafodd 32 o'r ymatebion eu cyflwyno drwy e-bost a chafodd 427 o'r ymatebion eu hanfon drwy ein ffurflen ymateb ar-lein.


Mae Tabl 4 yn rhoi dadansoddiad o'r mathau o sefydliadau a gyflwynodd y 31 o ymatebion ar ran busnesau a sefydliadau eraill.

**Tabl 4: Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ar ran busnesau neu sefydliadau eraill.**


| Math o sefydliad | Math o sefydliad |
|---|---|
| **Mentrau Preifat** | **8** |
| **Grwpiau Buddiant** | **7** |
| **Llywodraeth Ganolog** | **1** |
| **Llywodraeth Leol** | **7** |
| **Cyrff Cynrychioladol** | **5** |
| **Arall** | **3** |
| **Cyfanswm** | **31** |

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd ddarparu manylion am y wlad lle roedden nhw'n byw fel rhan o'u hymateb er mwyn i ni allu deall dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr. Daeth bron i ddwy ran o dair o'r ymatebion gan bobl a oedd yn byw yng Nghymru, gyda'r rhan


fwyaf o'r gweddill yn dod gan bobl oedd yn byw yn Lloegr. Mae Siart 1 isod yn dangos dadansoddiad o le roedd yr ymatebwyr yn byw.




Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth am ddiben eu siwrneiau dros y pontydd. Hamdden neu ddefnydd personol arall oedd yr ateb mwyaf cyffredin, wedi’i ddilyn yn agos gan bobl a oedd yn defnyddio’r pontydd at ddibenion a oedd yn ymwneud â gwaith. Mae Siart 2 yn dadansoddi’r defnydd i’r gwahanol opsiynau.




Mae Siart 3 yn rhoi dadansoddiad o ba mor aml roedd ymatebwyr yr ymgynghoriad yn defnyddio’r pontydd. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn defnyddio’r pontydd o leiaf unwaith yr wythnos.


Chart 3: Frequency of use of Crossing
144
57
132
73
5
13
35
3+ DAYS/WK
1-2 DAYS/WK
AT LEAST MONTHLY
LESS THAN MONTHLY
DON'T KNOW
NA/DON'T USE
NO ANSWER

# 4. Crynodeb o’r ymatebion

## Cwestiwn 1

### Ydych chi'n cytuno â'r gostyngiadau sy’n cael eu cynnig i’r tollau?


Er nad oedd yr ymgynghoriad wedi gofyn am safbwyntiau ynghylch diddymu’r tollau, roedd nifer mawr o ymatebion a oedd yn galw am hynny ynghyd â’r rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn cefnogi cynigion yr ymgynghoriad i ostwng y tollau 50%.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, yn unigolion a’r rheini a oedd yn cynrychioli busnesau neu sefydliadau eraill yn cytuno â’n cynigion i leihau’r tollau yn ôl y symiau a oedd wedi’u nodi yn y Ddogfen ymgynghori. Yn benodol, roedd 72% o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig i leihau’r tollau, ac roedd 28% yn anghytuno â’r cynnig (edrychwch ar Siart 4 isod).

Fodd bynnag er nad oedd y mwyafrif helaeth o’r rheini a oedd yn cytuno wedi rhoi sylw pellach, roedd 9% o'r rheini a oedd o blaid yn teimlo y dylid gostwng mwy ar y tollau neu eu diddymu’n llwyr. Ymateb cyffredin arall oedd y byddai gostwng y tollau’n helpu i roi hwb i economi’r rhanbarth.

Ar ben hynny, o’r 125 a oedd yn anghytuno â'r cynnig roedd 73% yn meddwl y dylid diddymu’r tollau neu eu gostwng ymhellach. Gyda’i gilydd felly roedd 27% o’r ymatebwyr wedi galw’n benodol am leihau’r tollau mwy na 50%, gyda 54% o’r rheini a oedd yn erbyn y cynnig yn galw am ddiddymu’r tollau’n llwyr.

Roedd 93% o’r ymatebion naill ai’n cytuno â haneru’r tollau neu fynd ymhellach. Dim ond nifer bach, dim ond dan 5% oedd yn credu mai’r cynnig i ostwng y tollau oedd yr opsiwn anghywir. Roedd rhai o'r farn y dylai’r tollau aros er mwyn helpu i hyrwyddo dulliau teithio glanach eraill ac mai dim ond cerbydau ecogyfeillgar ddylai gael gostyngiad.




## Cwestiwn 2

A chofio'r manteision a'r anfanteision, ydych chi'n meddwl y dylai'r llywodraeth ystyried y syniad o gyflwyno codi ffioedd agored dwy ffordd?

O'r 436 o bobl a ymatebodd gydag ydw neu nac ydw, dywedodd 60% o'r ymatebwyr eu bod o blaid y llywodraeth yn ystyried ffioedd agored neu hyd yn oed eu cyflwyno, ac roedd 40% yn erbyn.

Gan fod y penderfyniad yn cael ei wneud i ddiddymu tollau'n gyfan gwbl, mae ein hymchwiliad i'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer ffioedd agored ar Bontydd Hafren wedi dod i ben.

## Cwestiwn 3

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol am y cynigion deddfwriaethol, gan gynnwys y gorchymyn arwystlo drafft, rhowch y sylwadau hynny isod.

Rydym wedi dod i'r casgliad na ddaethpwyd o hyd i unrhyw faterion cyfreithiol gyda'r Gorchymyn Arwystlo drafft na'r Offerynnau Statudol drafft sydd eu hangen er mwyn parhau i ddefnyddio'r categorïau cerbydau presennol ar Bontydd Hafren. Er bod rhai o'r ymatebwyr wedi darparu safbwyntiau i ymateb i'r cwestiwn penodol hwn, nid oedd dim o'r ymatebion hyn yn gwneud unrhyw bwyntiau sy'n

ymwneud â’r ddeddfwriaeth arfaethedig ei hun. Mae’r rhain wedi cael sylw mewn man arall felly.

## Cwestiwn 4

Os oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ynghylch dyfodol y system taliadau TAG, rhowch y sylwadau hynny isod.

Roedd llai na chwarter o’r bobl a ymatebodd i’r ymgynghoriad wedi rhoi ateb i’r cwestiwn ynghylch gweithredu’r system taliadau TAG. Mae Tabl 5 isod yn rhestru rhai o’r themâu cyffredin a ddeilliodd o'r rheini a oedd wedi ymateb.

| Tabl 5: Themâu cyffredin ynghylch dyfodol y system taliadau TAG |
|---|
| Cynnig mwy o ddisgownt i ddefnyddwyr TAG. |
| Cynnig disgownt i'r rheini sy’n defnyddio TAG ar sail fesul taith. |
| Ystyried sut gallai’r system TG gynnig budd i’r rheini nad ydynt yn defnyddio’r pontydd yn rheolaidd. |
| Disodli’r system TG ee cyflwyno system tollau agored. |
| Ystyried uwchraddio’r dechnoleg i’w gwneud yn fwy dibynadwy a lleihau unrhyw oedi |
| Cynyddu nifer y lonydd TAG penodol er mwyn annog defnyddwyr i newid i TAG. |
| Diddymu’r tollau’n llwyr. |
| Cadw’r system taliadau TAG yn union fel y mae. |

Yn yr un modd â’r cwestiwn ar dollau agored, gan fod y penderfyniad yn cael ei wneud i ddiddymu tollau’n gyfan gwbl, mae ein hymchwiliad i’r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer y system taliadau TAG ar Bontydd Hafren wedi dod i ben.

# 5. Y Camau Nesaf

Ar ôl cyhoeddi’r ymateb hwn bydd yr Adran yn gweithio i wneud yr addasiadau sy’n cael eu disgrifio uchod er mwyn tynnu TAW oddi ar dollau. Yn ymarferol mae hyn yn golygu disodli’r doll gyfredol â thâl defnyddwyr ffyrdd o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, gan nad ydy'r fframwaith cyfreithiol cyfredol yn caniatáu gostwng tollau. Roeddem wedi ymgynghori ynghylch gorchymyn arwystlo drafft. Bydd y gorchymyn yn cael ei ddiwygio i wneud yr addasiadau TAW sy’n cael eu disgrifio uchod. Daw’r ffioedd newydd i rym ar 8 Ionawr, pan fydd y pontydd yn cael eu dychwelyd i berchnogaeth y cyhoedd. Ochr yn ochr â hynny, bydd y Llywodraeth hefyd yn symud ymlaen gyda’r dulliau eraill sy’n cael eu disgrifio uchod. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i weithio ar lunio’r cynlluniau terfynol i ddiddymu’r tollau ar ddiwedd 2018.
- Cyn rhoi’r ffioedd newydd ar waith byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau cyn bo hir a fydd yn datgan lle mae modd gweld y gorchymyn drafft a dogfennu perthnasol eraill i’w harchwilio ymhellach. Mae hyn er mwyn cydymffurfio â’r rheolau a nodir yn The Trunk Road Charging Schemes (Bridges and Tunnels) (England) Procedure Regulations 2001 ei bod yn rhaid i ddogfennau sy’n ymwneud â chynllun codi tâl fod ar gael i’w harchwilio am o leiaf 84 diwrnod. Ar ôl hyn byddwn yn cyflwyno gerbron y Senedd yr Offerynnau Statudol i sicrhau bod modd i’r taliadau ddod i rym ar yr adeg angenrheidiol. Bydd y dogfennau hyn ar gael yn swyddfeydd Highways England ym Mryste ac yn Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd.
- Bydd y ffioedd newydd yn cael eu hysbysebu cyn iddynt ddod i rym.